



## Cam 8: Gwneud cynnyrch bwyd

### Amcan dysgu

- Cynhyrchu cynnyrch bwyd

### Trosolwg o'r cam

Yn y cam hwn, bydd y plant yn gweithio yn eu grwpiau busnes i ddefnyddio'r perlysiâu y maent wedi bod yn eu tyfu, ynghyd â chynhwysion ychwanegol, i ddilyn eu ryseitiau bara wedi'u haddasu a gwneud eu cynnyrch bara â blas. Dyma gyfle gwych i roi cyfleoedd bywyd go iawn ystyrlon i blant gymhwyso eu dysgu Mathemateg. Mae'r adran 'Mathemateg gydag ystyr' yn darparu syniadau y gellid eu defnyddio i addysgu neu atgyfnerthu llawer o amcanion dysgu Blwyddyn 3 mewn ffordd ymarferol.

### Defnyddiau sydd eu hangen

- Perlysiâu y mae'r plant wedi'u tyfu
- Ryseitiau bara sylfaenol sydd wedi'u haddasu gan y plant
- Cynhwysion ychwanegol y mae'r plant am eu hychwanegu at eu bara
- Offer pwyso
- Jygiau Mesur
- Bowlenni cymysgu
- Cyllyll i dorri llysiâu
- Llwy fwrdd
- Llwy de
- Llwyau i gymysgu

### Nodiadau cyflwyno

Sleid 2: O ble mae blawd yn dod?	• Dechreuwch drwy ofyn cwestiynau i'r plant: O ble mae blawd yn dod? Sut mae'n cael ei wneud?
Sleid 3-4: Gwenith	• Defnyddiwch y PowerPoint i egluro sut mae gwenith yn cael ei ddefnyddio i wneud blawd.
Sleid 5: Bara	• Esboniwch y rôl sydd gan bob cynhwysyn wrth wneud bara.
Sleid 6: Hylendid bwyd	• Esboniwch, cyn y gallwn ddechrau paratoi ein cynnyrch bwyd, bod angen i ni olchi ein dwylo'n drylwyr gyda sebon a dŵr, clymu gwallt hir yn ôl, torchi ein llewys, gwisgo ffedog a glanhau ein harwynebau gwaith.

Sleid 7: Diogelwch yn y gegin	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gofynnwch i'r plant edrych o gwmpas yr ystafell a gweld y peryglon posib. E.e. cyllyll miniog, plicwyr a gratwyr; poptai poeth, hobiau, sosbenni; llithro ar hylifau/ bwyd a gollwyd ac ati.</li> <li>Cymerwch adborth a gwnewch yn siŵr bod sylw'r plant yn cael ei dynnu at y peryglon cyn iddyn nhw ddechrau paratoi eu cynhyrchion.</li> <li>Defnyddiwch y PowerPoint i rannu'r rheolau ar gyfer gweithio gyda chyllyll miniog.</li> </ul>
Sleid 8-9: Paratoi llysiau a pherlysiau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhyrchwyd y sleidiau hyn gan Primary Food Tech ac maent yn darparu arweiniad cam wrth gam ar sut i dorri a pharatoi llysiau/perlysiau yn ddiogel.</li> <li>Cyn i'r plant wneud eu bara â blas, defnyddiwch y sleidiau i fodlu sut i baratoi cynhwysion perlysiau a llysiau'r plant yn ddiogel. Gellid argraffu a lamineiddio'r sleidiau hyn hefyd fel y gall y plant gyfeirio atynt wrth weithio.</li> </ul>
Sleid 10: Tylino bara	<ul style="list-style-type: none"> <li>Modelwch sut i dylino bara ac egluro pam ei bod yn bwysig gan ddefnyddio'r PowerPoint.</li> </ul>
Sleid 11: Gwerthuso	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ar ôl i'r plant wneud eu cynnyrch gan ddefnyddio'r rysâit, rhwch gyfle iddynt werthuso eu gwaith gan ddefnyddio'r awgrymiadau cwestiwn ar y sleid.</li> <li>Yna gallai'r plant ddefnyddio ap iPad 'Comicbook!' I wneud canllaw gweledol ar wneud bara. Gallent gynnwys ffotograffau o bob cam o'r gwneud ac ychwanegu capsynau, swigod lleferydd, swigod meddwl, sticeri a hidlwyr i wella eu gwaith.</li> <li>Fe allech chi hefyd ddefnyddio ap iPad sgrin werdd fel 'Dolnk' i greu sioe goginio. Gallai'r plant serennu fel cogyddion teledu yn creu bara, ac yn siarad am yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu ar hyd y ffordd e.e. diogelwch cegin, o ble mae'r cynhwysion wedi dod ac ati.</li> </ul>

## Ychwanegu pinsiad o Fathemateg gydag ystyr!

### Deall graddfeydd

Mae dehongli graddfeydd yn aml yn faes dryswch i blant felly mae arddangos cynifer o wahanol raddfeydd â phosibl, mewn cymaint o gyd-destunau â phosibl, yn bwysig ar gyfer dysgu'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen arnynt i'w dehongli'n gywir pan gânt eu cyflwyno mewn testun llyfr, papur prawf neu fywyd go iawn. Mae coginio yn gyfle gwych i wneud hyn gan fod cymaint o wahanol raddfeydd i'w dehongli: graddfeydd pwysu, thermomedrau, deialau popty, iygiau mesur ac ati. Manteisiwch ar bob cyfle i archwilio graddfeydd gyda'i gilydd yn ystod y gweithgaredd hwn!

- Dechreuwch trwy edrych ar y rhifau ar y raddfa. Beth yw'r patrwm? Faint maen nhw'n mynd i fyny bob tro? Sut allwch chi weithio hyn allan os nad ydych chi'n siŵr? (tynnu)
- Os yw'r gwahaniaeth rhwng pob rhif ar y raddfa, er enghraifft, yn 200 ac mae 4 cynyddiad rhwng pob rhif, pa weithrediad allwn ni ei ddefnyddio i gyfrifo faint mae pob cynyddiad ar y raddfa yn ei gynrychioli? (rhannu)
- Os ydym bellach yn gwybod bod pob cynyddran yn cynyddu 50, yna gallwn weithio allan faint mae unrhyw un o'r cynyddrannau yn ei gynrychioli trwy gyfrif ymlaen mewn 50au o'r nifer agosaf ar y raddfa.
- Bydd defnyddio'r camau hyn i helpu'r plant i ddeall y raddfa y maent yn gweithio gyda hi cyn iddynt geisio mesur eu cynhwysion yn cynyddu eu cywirdeb gan y gallant weithio allan ble ar y raddfa y mae angen iddynt gyrraedd wrth dywallt eu cynhwysion.

### Cymharu màs

Mae pwysu a mesur cynhwysion yn rhoi cyfle defnyddiol ar gyfer cymharu màs a dechrau cyflwyno'r berthynas rhwng gramau a chilogramau. Gall hwn fod yn gysyniad anodd felly mae addysgu mewn cyd-destun ymarferol yn rhoi ystyr iddo ac yn ei wneud yn gofiadwy a gall wella dealltwriaeth plant yn sylweddol.

- Gan gymryd mesur blawd fel enghraifft, dechreuwch trwy edrych ar faint mae bag mawr o flawd yn ei bwysu (Defnyddiwch fag 1kg) ac eglurwch fod 1000 gram bach ym mhob cilogram. Ysgrifennwch hwn ar y bwrdd.
- Rhowch gyfle i'r plant deimlo pa mor drwm yw cilogram. Yna gofynnwch iddyn nhw wneud eu dwylo i siâp bowlen a chipio cymaint o flawd ag y gallan nhw ei ddal. Bydd hyn oddeutu 100 gram. Gofynnwch i'r plant ddefnyddio iaith gymharol i gymharu'r ddau fâs.
- Dangoswch symiau amrywiol o flawd i'r plant a gofynnwch iddyn nhw amcangyfrif eu masau ac yna gwirio eu hatebion trwy eu pwysu.
- Manteisiwch ar y cyfle i edrych ar y raddfa a gweithio allan maint y rhaniadau.
- Gofynnwch i'r plant edrych ar y berthynas rhwng gramau a chilogramau a dweud wrthyh a oes mwy o gramau neu gilogramau? Pam mae nifer y gramau yn fwy? Mae gramau fil gwaith yn llai na chilogramau felly mae angen mil gwaith yn fwy ohonyn nhw i lenwi'r bag 1kg.
- Gofynnwch i'r plant ddefnyddio'r wybodaeth hon i weithio allan faint o gramau fyddai mewn hanner cilogram a'u hystemyn i feddwl am chwarter cilogram.

## Cymharu a threfnu ffracsiynau gyda'r un enwadur

- Ar ôl i'r plant wneud eu cynhyrchion a thynnu llun ar gyfer eu hymgyrchoedd hysbysebu, fe allech chi ddod â rhai ffracsiynau i mewn cyn iddynt flasau eu cynnyrch.
- Gofynnwch: os oeddwn i eisiau rhannu fy nghynnyrch ag un/dau berson arall, faint o ddarnau HAFAL y bydd angen i mi eu cael? Defnyddiwch gwestiynu i adolygu ystyr enwadur ffracsiwn = sawl rhan mae'r cyfan wedi'i rannu.
- Gofynnwch i'r plant rannu eu cynnyrch yn chwarteri. Faint o ddarnau sydd angen i chi eu cael?
- Defnyddiwch gwestiynu i adolygu ystyr y rhifiadur e.e. sawl chwarter sydd gennych chi ar eich plât? Allwch chi ddal i fyny chwarter eich cynnyrch? Faint o chwarteri fydd ar ôl? Atgyfnerthwch bob cwestiwn gyda brawddeg rif ysgrifenedig ar y bwrdd.
- Gofynnwch gwestiynau syml i wreiddio dealltwriaeth y plant o ystyr y rhifiadur e.e. os ydych chi'n bwyta tair rhan o bump o'ch cynnyrch a bod eich partner yn bwyta dwy ran o bump, pwyl fydd wedi bwyta mwy o'r cyfan?

## Graddio

Mae gweithio gyda ryseitiau yn ffordd wych o gyflwyno graddio syml.

- Gofynnwch i'r plant edrych ar faint o ddogneau y bydd eu rysâit yn eu gwneud. Gofynnwch iddyn nhw feddwl am yr hyn y byddai'n rhaid i ni ei wneud pe byddem ni eisiau dyblu nifer y dogneau.
- Sefydlwch y byddai angen i ni ddyblu ein holl gynhwysion. Eglurwch fod dyblu yn golygu lluosî â dau.
- Gofynnwch i'r plant ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon i feddwl sut y byddem yn gwneud hanner nifer y dogneau. Sefydlwch y byddai angen i ni hanneru maint pob cynhwysyn.
- Rhowch enghreifftiau i'r plant weithio drwyddynt a'u hymestyn i feddwl am raddfeydd mwy e.e. tair gwaith nifer y dogneau.

## Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Pwnc	Testun	Amcan
Dylunio a Thechnoleg	Coginio a maeth	<ul style="list-style-type: none"><li>• Paratowch a choginiwch amrywiaeth o seigiau sawrus yn bennaf gan ddefnyddio ystod o dechnegau coginio</li></ul>
	Creu	<ul style="list-style-type: none"><li>• Dewis a defnyddio ystod ehangach o offer i gyflawni tasgau ymarferol [er enghraifft, torri, siapio, ymuno a gorffen], yn gywir</li></ul>
	Gwerthuso	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gwerthuso eu syniadau a'u cynhyrchion yn erbyn eu meini prawf dylunio eu hunain ac ystyried barn eraill i wella eu gwaith</li></ul>
Cyfrifiadureg		<ul style="list-style-type: none"><li>• Dewis, defnyddio a chyfuno amrywiaeth o feddalwedd (gan gynnwys gwasanaethau rhyngwryd) ar ystod o ddyfeisiau digidol i ddylunio a chreu ystod o raglenni, systemau a chynnwys sy'n cyflawni nodau penodol, gan gynnwys casglu, dadansoddi, gwerthuso a chyflwyno data a gwybodaeth</li></ul>